

# Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 2. Rheoli eich sefydliad

### 2.13 Gweithredu Cymunedol i taclo Newid Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn fater sy'n effeithio ar bob un ohonom, ond yn aml nid oes gennym syniad lle mae dechrau. Mae cymunedau a mudiadau cymunedol yn chwarae rôl allweddol drwy ymgysylltu â phobl ar lawr gwlad ac annog gweithredu a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r daflen wybodaeth hon yn awgrymu rhai ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn.

#### **Beth yw newid yn yr hinsawdd?**

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu. Mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi pan mae nwyon tŷ gwydr yn cael eu rhyddhau i'r atmosffer, ac mae hyn yn achosi i wres yr haul gael ei ddal. Mae hyn yn gwneud i'r hinsawdd newid, ac mae hyn yn aml yn arwain at fwy o ddigwyddiadau eithafol. Cymunedau tlotaf a mwyaf ymylol y byd yn aml sy'n profi effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn fater byd-eang sy'n cael effaith yn lleol ac sy'n effeithio ar bob un ohonom a'n cymunedau'n uniongyrchol.

#### **Beth sy'n achosi allyriadau nwyon tŷ gwydr?**

Mae'r rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu hachosi gan ein defnydd o danwyddau ffosil, fel olew, nwy a glo. Yr ydym i gyd yn effeithio ar yr hinsawdd oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r hyn yr ydym yn ei brynu. Er enghraifft, y teithiau yr ydym yn eu gwneud a'r bwyd yr ydym yn ei fwyta. Gallwn i gyd leihau'n heffaith ar yr hinsawdd drwy'r dewisiadau yr ydym yn eu gwneud. Mae llawer o'r dewisiadau hyn yn rhai syml, sy'n hawdd i'w gwneud ac nid ydynt yn costio dim (yn wir, gall rhai arbed arian i ni). Yn achos eraill mae angen mwy o feddwl ac maent yn ddewisiadau anos.

#### **Pam mae hyn mor bwysig i fy nghymuned i?**

Pam ddylem ni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? Os nad yw sicrhau ein bod yn goroesi'n ddigon o reswm, dyma ychydig o rai eraill:

- **Gallwch arbed arian** – gall lleihau faint o ynni ac adnoddau eraill yr ydych yn eu defnyddio arbed arian i chi, a lleihau gwastraff. Bydd yn eich galluogi i wario mwy o arian ar bethau yr ydych am eu gwneud a'r bobl yr ydych yn eu cefnogi. Po fwyaf o bobl fydd yn cymryd rhan, y mwyaf fydd yr arbedion i unigolion a'r gymuned yn gyffredinol.

- **Dysgwch sut y bydd yn effeithio arnoch** – mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnom ni ac ar y bobl yr ydym yn gweithio â hwy. Mae'n debygol o arwain at fwy o lifogydd a phrisiau bwyd uwch. Hefyd, gall gweithredu ar newid yn yr hinsawdd arwain at fuddiannau eraill. Bydd cynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol yn cael effaith fawr ar bobl ar incwm isel a phobl agored i niwed sy'n gorfod treulio llawer o amser yn eu cartrefi. Mae gwneud cartrefi'n effeithlon o ran ynni'n gam positif y gallir ei gymryd yn erbyn newid yn yr hinsawdd sy'n gallu arwain at filiau is, cartrefi cynhesach ac at fywydau gwell.
- **Helpu cymunedau i helpu'u hunain** – mae digonedd o brosiectau ynni adnewyddadwy ac ailgylchu'n ymddangos mewn cymunedau ym mhob cwr o Gymru. Maent yn cynhyrchu incwm a fydd, yn wahanol i gyllid, yn dal i gynhyrchu arian yn y dyfodol.
- **Gwneud ein rhan, bod yn esiampl** – gadewch i bobl wybod ein bod yn gwneud rhywbeth ynghylch newid yn yr hinsawdd.
- **Helpu i newid pethau** – mae gweithredu cymunedol wedi bod yn ysbardun dros newid ar hyd a lled y byd, gallwn helpu i newid pethau. Nid yn unig y gallwn ddylanwadu ar y bobl yr ydym yn gweithio â hwy, ond gallwn hefyd ddylanwadu ar eraill a helpu i newid pethau'n lleol.

## Beth allwn ni ei wneud?

### Mae digonedd o bethau ymarferol, er enghraifft, gallwn:

- Wneud unrhyw adeiladau yr ydym yn eu defnyddio'n fwy effeithlon o ran ynni (drwy insiwleiddio, gwydr dwbl neu foeler newydd) (gweler gwefannau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST), WVEC a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn adran 1 isod).
- Cynhyrchu'ch ynni eich hun gan ddefnyddio ynni'r haul neu'r gwynt (gweler gwefannau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST), WVEC a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn adran 1 isod).
- Defnyddio'n offer cartref a'n system wresogi'n briodol ac yn effeithlon (peidio gwastraffu trydan drwy adael goleuadau ymlaen, gadael offer nad ydym yn eu defnyddio ymlaen neu beidio â gadael y gwres / system aerdymheru ymlaen pan mae ffenestri ar agor) (gweler gwefannau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST), WVEC a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn adran 1 isod).
- Gadewch y car o flaen y tŷ a defnyddiwch fws neu drên, neu seiclo neu gerdded unwaith yr wythnos (gweler gwefan Sustrans yn adran 3 isod)
- Prynu bwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol pan fyddwn yn trefnu digwyddiad, er mwyn lleihau allyriadau trafniadaeth.
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir gennym, aildefnyddio gymaint ag y gallwn, ailgylchu gymaint ag y gallwn a chompostio'n gwastraff bwyd.
- Ymuno â gweithgareddau'ch ysgol eco agosaf (gweler gwefan Cadw Cymru'n Daclus yn adran 3 isod).
- Annog ein cydweithwyr a'n gwirfoddolwyr i wneud rhywbeth gyda'n gilydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (gweler gwefannau'r mudiadau perthnasol yn yr adran isod).

### Un peth y gallwn ei wneud yw codi ymwybyddiaeth drwy annog pobl i wneud

## **rhywbeth, gallwn:**

- Sefydlu prosiect cymunedol, gall hyn amrywio o blannu coeden i gynllun ynni adnewyddadwy (gweler gwefan Amgylchedd Cymru yn Adran 2 isod).
- Bod yn greadigol a chynnwys pobl yn y gwaith o gynhyrchu drama neu DVD.
- Gofyn cwestiynau i wleidyddion a gofyn iddynt beth maent yn ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## **Bydd unrhyw gamau a gymerwn yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn arwain at lawer o fuddiannau eraill, felly os byddwn yn:**

- Gyrru llai, byddwn yn fwy ffit drwy gerdded neu seiclo mwy.
- Gwella effeithlonrwydd ynni ein swyddfa neu'n cartref, byddwn yn arbed arian ar filiau ac yn teimlo'n gynhesach ac yn fwy cyfforddus.
- Prynu bwyd lleol, byddwn yn rhoi arian yn ôl yn yr economi leol. Yn well byth, gallwn dyfu'n bwyd ein hunain, a byddai hynny o fudd i'ch iechyd ac i'r amgylchedd.

## **Felly, beth amdani?**

## **Ffynonellau cymorth a gwybodaeth defnyddiol**

### **1. Effeithlonrwydd Ynni ac Ynni Adnewyddadwy**

- Y Gwasanaeth Ynni Cartref [www.h-e-s.org/](http://www.h-e-s.org/)
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni [www.energysavingtrust.org.uk](http://www.energysavingtrust.org.uk)
- Ynni'r Fro – cymorth a chyllid ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol, e-bost [ynnirfro@est.org.uk](mailto:ynnirfro@est.org.uk) neu ewch i'r wefan yn [www.energysavingtrust.org.uk/wales/Communities/Finding-funding/Ynni-r-Fro-programme](http://www.energysavingtrust.org.uk/wales/Communities/Finding-funding/Ynni-r-Fro-programme)

### **2. Gweithredu Cymunedol – darganfod yr hyn mae pobl eraill yn ei wneud**

- Amgylchedd Cymru – prosiectau cymunedol [www.environment-wales.org](http://www.environment-wales.org)
- Cynnal Cymru – gwybodaeth a syniadau ar gynaliadwyedd [www.sustainwales.com](http://www.sustainwales.com)

### **3. Cynaliadwyedd, Ailgylchu a Gwella'r Amgylchedd Lleol**

- Groundwork Wales – cyngor amgylcheddol <https://www.groundwork.org.uk/sites/wales>
- BTCV Cymru – cadwraeth ymarferol a phrosiectau lleol i dyfu bwyd [www.btcv.org.uk](http://www.btcv.org.uk)
- Sustrans – llwybrau seiclo [www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk)
- Cadwch Gymru'n Daclus – gwella'r amgylchedd [www.keepwalestidy.co.uk](http://www.keepwalestidy.co.uk)
- Llywodraeth Cymru – polisïau, dolenni a gweithgareddau perthnasol <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment>

#### 4. Gwybodaeth Gymunedol a Ffynonellau Cymorth Lleol

- Cysylltwch â WCVA am wybodaeth a chyngor, gan gynnwys manylion cyswllt eich Cyngor Gwirfoddol Sirol, a all eich helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid  
**0800 2888 329** [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

#### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

#### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

##### Medrwn Môn

Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR  
Elusen Gofrestredig: 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
Wedi ei ddiweddarau: 26/01/2017



Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)